# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ar y safle - Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 21 Tachwedd 2022

Amser: 12.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12.30)

## 2 Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(12.30 - 13.30) (I ddilyn)

Leslie Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir, Llywodraeth Cymru

Dorian Brunt, Uwch-gyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol - Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

William Cordingley, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol - Bywyd Gwyllt, Llywodraeth Cymru

Bil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 - Papur 1 - Nodyn briffio

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)277 - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 1 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.2 SL(6)281 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2022**

(Tudalennau 4 - 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 - Papur 3 - Adroddiad drafft

LJC(6)-30-22 - Papur 4 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 10 Tachwedd 2022

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.35 - 13.40)

**4.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022**

(Tudalen 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 5 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 16 Tachwedd 2022

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalennau 10 - 12)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, 17 Tachwedd 2022

LJC(6)-30-22 – Papur 7 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 17 Tachwedd 2022

## 5 Papurau i'w nodi

(13.40 - 13.45)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU**

(Tudalennau 13 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, 10 Tachwedd 2022

LJC(6)-30-22 – Papur 9 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 3 Hydref 2022

**5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael.**

(Tudalennau 27 - 36)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 14 Tachwedd 2022

**5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

(Tudalen 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 14 Tachwedd 2022

**5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: SL(6)284 – Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022**

(Tudalen 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 15 Tachwedd 2022

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.45)

## 7 Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(13.45 – 14.00)

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diogelwch Ar-lein

(14.00 – 14.10) (Tudalennau 39 – 43)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): y Bil Diogelwch Ar-lein

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 13 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio): Adroddiad drafft

(14.10 – 14.20) (Tudalennau 44 – 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 14 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-29-22 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 10 Tachwedd 2022

LJC(6)-30-22 – Papur 16 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 31 Hydref 2022

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion: Adroddiad drafft

(14.20 - 14.30) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 17 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

(14.30 - 14.40) (Tudalennau 57 - 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 18 – Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

## 12 SICM(6)1 – Gorchymyn Newid Hinsawdd (Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Targedu) 2022: Adroddiad drafft

(14.40 - 14.50) (Tudalennau 60 - 64)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-22 – Papur 19 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-30-22 – Papur 20 – Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

# SL(6)277 - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 9(1) a 18A(3) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid ("Rheoliad 1831/2003").

Ni chaniateir rhoi ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad, eu prosesu na'u defnyddio oni bai eu bod yn cael eu cwmpasu gan awdurdodiad a roddwyd yn unol â Rheoliad 1831/2003. Mae awdurdodiadau yn ddilys am ddeng mlynedd.

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer awdurdodi 11 o ychwanegion bwyd anifeiliaid:

- Mae atodlenni 1 i 3, 7 a 9 yn cynnwys awdurdodiadau newydd.
- Mae atodlenni 4 i 6 ac 8 yn cynnwys adnewyddu awdurdodiadau blaenorol.
- Mae atodlenni 10 ac 11 yn awdurdodi fformiwleiddiad newydd o ddecocwinad a ffurf addasedig ohono.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio pedwar o Reoliadau'r UE a ddargedwir sy'n awdurdodi'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 i ddiweddaru enw'r straen bacterol i "*Bacillus velezensis*". Mae darpariaeth drosiannol yn caniatáu parhau i ddefnyddio cynhyrchion a labelwyd gan ddefnyddio'r enw blaenorol ond a gynhyrchwyd fel arall yn unol â'r awdurdodiadau perthnasol.

Mae'r Rheoliadau yn dirymu Rheoliadau'r UE a ddargedwir sy'n cynnwys awdurdodiadau ymlaen llaw ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd bellach wedi eu hawdurdodi gan yr Atodlenni. Mae darpariaethau trosiannol yn caniatáu parhau i gynhyrchu a labelu cynhyrchion, am gyfnodau cyfyngedig o amser, o dan amodau awdurdodiadau ymlaen llaw.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Atodlenni i'r Rheoliadau yn cynnwys awdurdodiadau newydd ac adnewyddu awdurdodiadau presennol, gydag addasiadau neu heb addasiadau. Mae Rheoliad 6 yn addasu awdurdodiad presennol, tra bod rheoliadau 4 i 7 yn diwygio awdurdodiadau presennol. Mae Rheoliad 8 ac Atodlen 12 yn dirymu awdurdodiadau presennol.

Mae Erthygl 13 o Reoliad 1831/2003 yn darparu ar gyfer addasu, atal neu ddirymu awdurdodiad. Mae Erthygl 13(6) yn darparu bod yn rhaid i delerau unrhyw addasu, atal neu ddirymu fod ar ffurf a ragnodir gan yr awdurdod priodol (ac yn unol ag Erthygl 2, ystyr "prescribed" yw "prescribed by regulations").

Mae'r Rheoliadau cyfatebol ar gyfer yr Alban y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at Erthygl 13(6) yn y rhaglith, ond nid yw'r Rheoliadau cyfatebol yn Lloegr yn cyfeirio at hynny.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer yn Erthygl 13(6) o Reoliad 1831/2003 wrth wneud y Rheoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae nifer o anghysondebau o ran sut mae termau technegol yn cael eu trin o fewn yr Atodlenni i'r Rheoliadau. Er enghraifft:

- Yn Atodlen 7, ym mhennawd y tabl, mae'r geiriau mewn dyfynodau ar gyfer y categori ychwanegion *"**ychwanegion** sootechnegol"* yn wahanol i'r geiriau a ddefnyddir ar gyfer y categori ychwanegion yn y tabl (*"**ychwanegyn bwyd anifeiliaid** sootechnegol"*).
- Yn Atodlen 1, yn y fersiwn Saesneg, yn yr ail golofn ar gyfer y cofnod "*Characterisation of the active substance(s)*", dylai'r geiriau "*Manganese-2-aminopentanedioic acid, sodium and*" fod ar linell newydd, yn hytrach nag yn syth ar ôl y gromfach gaeedig ar gyfer y fformiwla flaenorol.
- Yn y fersiwn Saesneg, yn y tablau yn Atodlenni 2, 6, 7 ac 8, yn y cofnodion ar gyfer "*Dulliau dadansoddi*", mae'r priflythrennau a'r cysylltnodau ar gyfer y term "*Pulsed field gel electrophoresis*" yn amrywio. Yn y testun Cymraeg o'r Atodlenni hynny, mae priflythrennau'r term hefyd yn anghyson.
- Yn yr Atodlenni, lle talfyrir term technegol, mae'r testun Cymraeg yn gyffredinol yn defnyddio'r talfyriad Saesneg. Fodd bynnag, yn Atodlen 5, defnyddir llythrennau

cyntaf y geiriau Cymraeg cyfatebol er mwyn creu byrfodd Cymraeg gwahanol. Mae'r ddwy ffordd yn ddilys, ond gallai'r anghysondeb achosi dryswch i'r darllenydd.

Mae'r Atodlenni yn darparu'r awdurdodiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegion bwyd anifeiliaid penodedig. Atgoffir Llywodraeth Cymru y dylid cymryd gofal i drin termau technegol perthnasol mewn ffordd gyson, i sicrhau bod awdurdodiadau yn glir, ac i osgoi unrhyw ddryswch.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt craffu technegol yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Tachwedd 2022**

# SL(6)281 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2022

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fel a ganlyn:

(i) fel bod y cyfnod hysbysu byrraf o chwe mis ar gyfer hysbysiad y landlord, sydd eisoes yn ofynnol mewn perthynas â chontractau safonol cyfnodol newydd, yn cael ei ymestyn i gontractau safonol cyfnodol wedi eu trosi o 1 Mehefin 2023 ymlaen;

(ii) fel bod landlordiaid cymunedol yn gallu cysoni'r dyddiad amrywio rhent ar gyfer tenantiaethau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Gwneir hyn drwy, yn y flwyddyn ar ôl ei weithredu, ganiatáu i landlord o'r fath amrywio'r rhent ddim llai na 51 wythnos ar ôl y cynnydd blaenorol; ac

(iii) darparu bod cymalau amrywio rhent sy'n bodoli eisoes mewn tenantiaethau sicr yn y sector rhentu preifat yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl trosi i gontract safonol cyfnodol lle mae’r landlord yn landlord preifat.

Yn ogystal, ac o ganlyniad i (ii) uchod, gwneir diwygiad canlyniadol i Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Mae ymestyn y cyfnod rhybudd o dan gontractau safonol cyfnodol wedi'u trosi o ddau fis i chwe mis yn golygu bod landlord preifat, wrth adennill meddiant o'i eiddo, wedi'i gyfyngu am gyfnod hirach na'r cyfnod presennol. Mae Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn diogelu mwynhad person o'i eiddo – mae hyn yn berthnasol i fwynhad landlord preifat o'i eiddo. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi cynnal asesiad o'r effaith ar hawliau dynol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a darparu rhagor o wybodaeth am ganlyniad asesiad o'r fath.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1.**

Cynhaliwyd asesiad trylwyr o'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Tachwedd 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Canlyniad yr ymgynghoriad ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 – Cyfnodau Hysbysu ar gyfer Contractau sydd wedi'u Trosi a gosod rheoliadau cysylltiedig** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Daw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar 1 Rhagfyr 2022. Ymysg pethau eraill, bydd y Ddeddf yn gwella sicrwydd deiliadaethau ar gyfer rhentwyr drwy estyn y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi wrth geisio adfeddu eu heiddo mewn amgylchiadau pan nad yw'r rhentwr ar fai.

Ar 20 Medi, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig gan gadarnhau ymgynghoriad ynghylch cynnig i gymhwyso cyfnodau hysbysu di-fai chwe mis o hyd i denantiaethau presennol sy'n trosi i gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf, gan ddod i rym o 1 Mehefin 2023 (mae'r cyfnod hysbysu chwe mis eisoes yn gymwys i gontractau newydd sy'n dechrau o 1 Rhagfyr).

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn uniongyrchol ymysg landlordiaid drwy Rhentu Doeth Cymru ac yn y cyfryngau cenedlaethol. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori hefyd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl a Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru.

Cafwyd ychydig dros 1400 o ymatebion cyflawn i'r ymgynghoriad, gyda thros 90% ohonynt gan landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod eiddo. Rwy'n ddiolchgar i bawb am roi o'u hamser i ymateb. Roedd y mwyafrif helaeth o landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo yn erbyn cymhwyso cyfnodau hysbysu chwe mis o hyd i denantiaethau presennol. O'r rhai hynny oedd yn gytûn, roedd y mwyafrif yn ffafrio gweithredu'r newid yn ddiweddarach. Gwnaeth y Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl wrthwynebu'r estyniad, ond pe bai cytundeb iddo, awgrymodd y Gymdeithas y dylid ei oedi am hyd at ddwy flynedd. Ar y llaw arall, roedd yr holl denantiaid a chyrff cynrychioli tenantiaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad o blaid yr estyniad arfaethedig, gyda'r mwyafrif yn dadlau y dylid ei gymhwyso o 1 Rhagfyr yn hytrach na 1 Mehefin 2023.

Roedd y cynnig i estyn y cyfnod hysbysu di-fai i chwe mis wastad am greu safbwyntiau hynod gyferbyniol. Gan nodi safbwyntiau'r landlordiaid a'r asiantiaid hynny a ymatebodd, rwyf i wedi penderfynu bod y manteision cymdeithasol ac unigol sy'n deillio o'r estyniad yn gorbwyso'r effeithiau negyddol ar landlordiaid unigol, yn enwedig gan ystyried cyfnodau hysbysu byrrach, mis neu lai o hyd, sy'n gymwys pan fo contract wedi'i dorri. Er hynny, rwyf i hefyd yn ymwybodol na chafodd landlordiaid y cyfle i ystyried y cynnig o ran cytuno ar gontractau newydd cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Serch y galwadau gan gynrychiolwyr tenantiaid i gyflwyno'r cyfnod hysbysu di-fai estynedig cyn gynted â phosibl, credaf ei fod yn briodol sicrhau rhagor o amser i landlordiaid gynllunio na fyddai cymhwyso'r newid ar 1 Rhagfyr yn ei ganiatáu iddynt. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad cyffredinol a wnaethpwyd gennym o ran rhoi hysbysiad o chwe mis i faterion pwysig sy'n ymwneud â gweithredu Deddf 2016. Felly, rwyf i wedi penderfynu bwrw ymlaen â chymhwyso'r estyniad o 1 Mehefin 2023. Credaf fod hyn yn sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng hawliau tenantiaid a hawliau landlordiaid. I roi effaith i fy mhenderfyniad, rwyf i heddiw wedi gosod rheoliadau gerbron y Senedd. Bydd y rheoliadau hynny yn cael eu trafod cyn y daw Deddf 2016 ei hun i rym ar 1 Rhagfyr.

Yn ogystal, hoffwn ddiweddaru'r Aelodau ynghylch hynt y gwaith o weithredu Deddf 2016. Yn ddiweddar, rwyf i wedi gwneud tair set o reoliadau o dan y weithdrefn gymeradwyo negyddol. Maent fel a ganlyn:

- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) (Diwygio) 2022, a wnaed ar 24 Hydref mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Diolchaf i'r Pwyllgor am eu sylwadau;
- Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022, a wnaed ar 24 Hydref mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Diolchaf i'r Pwyllgor am eu sylwadau; a
- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Diwygio) (Cymru) 2022, sy'n diweddaru cyfeiriad at Safon Brydeinig sydd bellach wedi dyddio ar gyfer rheoliadau weirio, yn ogystal ag estyn y cyfnod amser sydd gan landlord i roi adroddiad i'r deiliad contract yn dilyn archwiliad diogelwch trydanol o 7 i 14 o ddiwrnodau (yr ail yn enwedig mewn ymateb i bryderon a godwyd gan ddarparwyr tai cymdeithasol mawr).

Yn dilyn cytundeb y Senedd ar 8 Tachwedd i Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn sgil darpariaethau Deddf 2016, rwyf bellach wedi gwneud y rheoliadau hynny. Ymhellach i hynny, rwyf hefyd wedi gwneud Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2022. Ni fyddai wedi bod yn bosibl gwneud y rhain cyn y rheoliadau diwygio canlyniadol.

I gloi, wrth baratoi at weithredu'r Ddeddf, hoffwn gydnabod yr ymdrechion sylweddol sy'n cael eu gwneud, yn enwedig gan landlordiaid yn y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat, gan asiantiaid gosod eiddo a chan nifer o gyrff cynrychioli tenantiaid a landlordiaid. Fel yr wyf wedi ei ddatgan eisoes, mae gweithredu Deddf 2016 yn cynrychioli newid radical i gyfraith tai a fydd yn gwella sicrwydd deiliadaethau a diogelwch tenantiaid. Bydd hefyd yn

symleiddio cyfraith tai a'i gwneud yn glir i landlordiaid. Rydym ar hyn o bryd yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o Ddeddf 2016. Er y bydd unrhyw newid o'r maint hwn yn anochel yn golygu problemau cychwynnol, heb os, credaf y bydd Deddf 2016 yn gosod sail ar gyfer sector rhentu sy'n fwy llwyddiannus a sefydlog yn y blynyddoedd i ddod.

Eitem 4.1

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

16 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Yn 2019, cytunodd Gweinidogion ar draws y DU gyda'i gilydd i gyflwyno cyfundrefn Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) newydd ar gyfer deunydd pacio, a fydd yn disodli'r drefn bresennol. Fodd bynnag, nid yw dyddiad cychwyn cyfundrefn newydd yr EPR tan 2024, sy'n golygu bod angen diwygiadau i reoliadau presennol Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod targedau yn eu lle ar gyfer y cyfnod interim.

Rhoddwyd cytundeb ar gyfer gwneud Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022. Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 50 a pharagraffau 1(1) a 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod y targedau presennol yn cael eu trosglwyddo tan 2023, hyd nes bod y rheoliadau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr newydd ar gyfer deunydd pacio yn dod i rym.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007 (O.S. 2007/871). Mae'r Rheoliadau hynny'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr deunydd pacio, i ailgylchu gwastraff deunydd pacio er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu cyffredinol a thargedau ailgylchu deunydd-benodol. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod targed ailgylchu cyffredinol o 67.6% a thargedau ailgylchu deunydd-benodol ar gyfer gwydr (82%), plastig (61%), alwminiwm (69%), dur (87%), papur/cardbord (83%) a phren (35%) yn ogystal â tharged aildoddi penodol ar gyfer gwydr (72%).

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Blackpool** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Cynhaliwyd 38ain cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar 10/11 Tachwedd gan Lywodraeth y DU yn Blackpool. Ymunais â'r cyfarfod o bell.

Cafodd rhaglen yr Uwchgynhadledd ei hagor gan Brif Weinidog y DU, a fynychodd ddigwyddiadau ddydd Iau 10 Tachwedd. Cadeiriwyd cyfarfod llawn yr Uwchgynhadledd ddydd Gwener 11 Tachwedd gan y Gwir Anrh Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Roedd y cynrychiolwyr eraill a oedd yn bresennol yn cynnwys y Taoiseach, Micheál Martin TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrh Nicola Sturgeon ASA, Prif Weinidog Jersey, Kristina Moore, Prif Weinidog Guernsey, y Dirprwy Peter Ferbrache, Prif Weinidog Ynys Manaw, Alfred Cannan MHK, ac Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, y Gwir Anrh Chris Heaton-Harris AS.

Twf ac Adfywio Cynaliadwy oedd thema'r Uwchgynhadledd hon. Canolbwyntiodd y Cyngor ar ymdrechion sydd ar y gweill ar draws yr aelod-weinyddiaethau sy'n rhan o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i ysgogi a chefnogi twf economaidd cynaliadwy, i ddatblygu cymunedau mwy cynhwysol, ac i fynd i'r afael â'r pwysau sydd ar dai yn benodol. Nododd y Cyngor hefyd y cyfarfod Gweinidogol diweddar o sector gwaith Cynhwysiant Cymdeithasol y Cyngor, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

At hynny, trafododd y Cyngor y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf gan gynnwys: ymosodiad Rwsia ar Wcráin, effaith y cynnydd mewn costau byw, amcanion cyffredin o ran hinsawdd a datgarboneiddio, a'r berthynas barhaus â'r UE. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am Ogledd Iwerddon ac edrychwyd ymlaen at adfer y sefydliadau datganoledig. Nododd y Cyngor hefyd y byddai 2023 yn dynodi 25 mlynedd ers Cytundeb Gwener y Groglith/Belfast, ac amlinellodd bwysigrwydd cefnogi pob un o sefydliadau'r cytundeb i weithredu'n effeithiol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

Wrth gyfrannu at y drafodaeth hon, amlygais nifer o feysydd y mae angen iddynt barhau ar frig rhestr blaenoriaethau'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig:

- gweithio ochr yn ochr â chymunedau i sicrhau twf cynaliadwy, gan fuddsoddi mewn seilwaith, pobl a lleoedd, i greu'r amodau lle bydd busnesau yn buddsoddi;
- rôl buddsoddiad uniongyrchol gan y Llywodraeth mewn strategaethau twf, mewn meysydd fel newid hinsawdd, ymchwil ac arloesi, a chefnogi egin ddiwydiannau;
- yr argyfwng costau byw a'r angen am gamau pellach sylweddol i gefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed sy'n cael trafferth gyda chostau cynyddol, gan ganolbwyntio ar atebion ymarferol;
- yr argyfwng ynni a'r angen i ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, er budd diogelwch ynni a'r argyfwng hinsawdd, ac i wneud ynni cartrefi yn fforddiadwy;
- effeithiau pryderus Brexit gan gynnwys ar ymchwil, masnach a phorthladdoedd Cymru, a'r angen am sefydlogrwydd a gwelliannau yn y fasnach a'r berthynas ehangach rhwng y DU a'r UE.

Cyhoeddwyd Hysbysiad ar y cyd ar ôl y cyfarfod, sydd ar gael yn:

https://www.britishirishcouncil.org/bic/summits (Saesneg yn Unig)

Bydd Uwchgynhadledd nesaf y Cyngor yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Jersey.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

17 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghymru**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 9 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Blackpool a'r drafodaeth ar dwf ac adfywio cynaliadwy, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd a'r drafodaeth Weinidogol.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/RE/3374/22

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

SeneddClimate@senedd.wales

10 Tachwedd 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich adroddiad ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud wrth graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwn, a sylwaf ein bod yn rhannu nifer o'r un pryderon.

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor y gallai'r Banc chwarae rhan bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiad i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Felly, rydym wedi bod wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau synhwyrol i'r Bil er mwyn sicrhau bod datganoli yn cael ei barchu.

Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymalau 2 (Amcanion a gweithgareddau) a 3 (Blaenoriaethau a chynlluniau strategol) o'r Bil, a mae'n nodi nad oes rôl, ar hyn o bryd, i Lywodraeth Cymru na'r Senedd. Rydym yn rhannu'r pryder hyn ac rydym yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar welliannau i fynd i'r afael â hyn.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn rhannu eich pryder ynghylch y ffaith nad oes rôl i Lywodraeth Cymru yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc ac rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn gyda Llywodraeth y DU drwy welliannau penodol i'r Bil.

Fel y Pwyllgor, roeddem yn falch o weld bod gwelliant yn Nhŷ'r Arglwyddi i ehangu'r diffiniad o seilwaith i gynnwys "atebion ar sail natur" er mwyn osgoi unrhyw amwysedd wrth dderbyn cynigion o'r fath i'r Banc. Rydym yn cefnogi cadw'r gwelliant hwn wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae ansefydlogrwydd sylweddol wedi bod yn San Steffan sydd wedi arwain at nifer mawr o newidiadau i Weinidogion Trysorlys Ei Fawrhydi ac mae hynny wedi llesteirio'r cynnydd a wnawn wrth drafod unrhyw gytundeb posibl. Bu oedi hefyd i daith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol y DU, a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chyhoeddiadau eraill fel Cynllun Twf 2022. Rwy’n deall y bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i’r Cyfnod Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac i geisio gwelliannau priodol sy’n parchu datganoli.

Gan fod trafodaethau’n parhau, yn anffodus ni allaf fod yn fwy penodol am union natur y gwelliannau hyd nes y gwneir cynnydd pellach. Fodd bynnag, bydd unrhyw gytundeb yn arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall a chyfle i’r Pwyllgor adrodd ymhellach ar y mater.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

3 Hydref 2022

Annwyl Rebecca,

Amgaeaf gopi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y *Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.*

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb ymhen 30 diwrnod gwaith, erbyn 14 Tachwedd 2022, neu nid yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y disgwylir i'r ddadl ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei chynnal, pa un bynnag un sydd gyntaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Y Gweinidog Newid Hinsawdd; Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU

Hydref 2022

## Casgliad cyffredinol

Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y Bil, fel y'i drafftiwyd. Nid ydym mewn sefyllfa i ddod i farn ar gydsyniad deddfwriaethol hyd nes y bydd yn gwybod beth yw canlyniad trafodaethau rhynglywodraethol parhaus ar welliannau i sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu cymhwysedd datganoledig yn llawn. Byddwn yn adolygu ein safbwynt yng ngoleuni unrhyw welliannau i'r Bil, y disgwyliwn iddynt gael eu cynnwys mewn memoranda yn y dyfodol.

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 25 Mai 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ('y Gweinidog') y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Seilwaith y DU ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Ar 7 Mehefin 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm hwn at y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 29 Medi 2022. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes annog y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor hwn i drafod rhyngddynt pwy fyddai'n arwain y gwaith craffu.

**3.** Ar 8 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU ('y Memorandwm Atodol') gerbron y Senedd.

**4.** Ar 12 Gorffennaf 2022, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Memorandwm Atodol at yr un pwyllgorau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 i'w ystyried, gyda'r dyddiad cau 19 Tachwedd 2022 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

### Ein dull ni

**5.** Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad ynghylch darpariaethau'r Bil i'r graddau y maent yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at John Flint, Prif Swyddog Gweithredol Banc Seilwaith y DU. Mae'r cyfnewid hwn mewn gohebiaeth ar gael ar wefan Senedd Cymru.

**6.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor ar y Bil a'r Memoranda i'r graddau y maent yn berthnasol i'w gylch gwaith. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gael ar wefan Senedd Cymru.

# 2. Cefndir y polisi

**7.** Yn 2018, argymhellodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU y dylid sefydlu banc seilwaith cenedlaethol y DU i gymryd lle swyddogaethau Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit. Fe wnaeth ymgynghoriad Llywodraeth y DU (Tachwedd 2019) hefyd ganfod bod cefnogaeth i gorff o'r fath.

**8.** Roedd Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol Llywodraeth y DU (Tachwedd 2020) yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu banc seilwaith cenedlaethol mawr newydd a fyddai'n gweithredu gyda chryn dipyn o annibyniaeth weithredol, ond o fewn mandad a bennir gan y llywodraeth.

**9.** Cyhoeddwyd y bwriad i greu Banc Seilwaith y DU ('y Banc') gan y Canghellor yn yr Adolygiad o Wariant 2020. Dywedodd yr Adolygiad o Wariant 2020:

> *"Increased infrastructure investment is supported by a new National Infrastructure Strategy, which sets out the government's plans to transform the UK's economic infrastructure. It is based around three central objectives: economic recovery, levelling up and unleashing the potential of the Union, and meeting the UK's net zero emissions target by 2050. These objectives will be supported by the creation of a new infrastructure bank to catalyse private*

*investment in projects across the UK; as well as through a comprehensive set of reforms to the way infrastructure is delivered."*

**10.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dogfen Policy Design ar gyfer y Banc, sy'n amlinellu perthynas y Banc â'r gweinyddiaethau datganoledig, ymhlith pethau eraill. Mae'n nodi'r canlynol:

> *"The Bank will operate across the whole of the UK, working closely with public and private sectors to support infrastructure investment in every nation. Building strategic relationships with the devolved administrations, local authorities across the UK and relevant institutions such as the Scottish National Investment Bank and Development Bank of Wales, will be a priority".*

**11.** Mae'r ddogfen *Policy Design* hefyd yn nodi y byddai Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig yng ngham nesaf y gwaith o gynllunio'r Banc.

**12.** Lansiwyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021. I gyd-fynd â'r lansiad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU UK Infrastructure Bank Framework Document, sy'n nodi'r atebolrwydd a'r berthynas rhwng y Banc, y Cyfranddaliwr (Trysorlys EM) a Chynrychiolydd y Cyfranddalwyr (Buddsoddiadau Llywodraeth y DU).

**13.** Ym mis Mawrth 2022, cyn cynllun strategol cyntaf y Banc, ysgrifennodd y Canghellor at y Banc i amlinellu blaenoriaethau polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y sefydliad a rhoi mwy o eglurder ynghylch ei fandad. Mae'r llythyr yn nodi disgwyliadau'r Canghellor ar gyfer y Banc, sef:

- gweithio'n adeiladol gyda'r llywodraeth a sefydliadau ym mhob un o wledydd y DU i wneud y mwyaf o effaith ei fuddsoddiadau;
- datblygu dealltwriaeth gynnil o nodweddion y farchnad ym mhob un o'r pedair gwlad fel y gall dargedu ei fuddsoddiadau'n briodol;
- rhoi blaenoriaeth i feithrin perthynas gref â Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban a Banc Datblygu Cymru a gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon mewn ffyrdd sy'n gydnaws â threfniadau datganoli'r DU;
- canolbwyntio ei fuddsoddiad a'i ymgysylltiad ar feithrin ei bresenoldeb yn y farchnad ym mhob un o'r pedair gwlad; a
- monitro'r effaith y mae'r Banc yn ei chael ym mhob un o'r gwledydd.

**14.** Cyhoeddodd y Banc ei Gynllun Strategol ar gyfer 2022 ym mis Mehefin 2021.

# 3. Bil Banc Seilwaith y DU

## Diben y Bil

**15.** Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU ('y Bil') yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.

**16.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi:

> *"The purpose of this Bill is to place the UK Infrastructure Bank ('the Bank') on a statutory footing. The Bank is an operationally independent institution wholly owned by government.* ***The Bank's purposes are to help tackle climate change*** *and to support regional and local economic growth****, through investment in infrastructure*** *(ychwanegwyd pwyslais)."*

## Hynt drwy Senedd y DU

**17.** Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Gorffennaf 2022, lle cytunwyd ar gyfres o welliannau. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau sy'n berthnasol i'n trafodaeth yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

**18.** Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf 2022. Nid yw dyddiad yr ail ddarlleniad wedi'i gyhoeddi eto.

# 4. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**19.** Yn ôl y Memorandwm, mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan (cymalau 1 i 11) gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru. Mae'r Memorandwm yn datgan:

> *"Mae prif bwnc y Bil, sef darparu cymorth ariannol a chyngor i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (gan gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), yn faes datganoledig o'r gyfraith."*

**20.** Mae paragraffau 24 i 42 o'r Memorandwm yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**21.** Mae paragraffau 43 i 46 o'r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad.

**22.** Yn ôl Llywodraeth y DU, dim ond ar gyfer cymalau 2, 3, 4, 5, 8 ac 11 o'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd.

## Gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**23.** Mae paragraffau 14 i 29 o'r Memorandwm Atodol yn rhoi manylion am y gwelliannau i'r Bil y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**24.** Yn ôl y Memorandwm Atodol, "Mae barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad yn parhau i fod yr un fath â'r farn a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a gyflwynwyd ar 25 Mai 2022".

## Safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru

**25.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod y "Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn bygwth cymwyseddau datganoledig. H.y., mae pwerau'n cael eu cadw yn ôl ar gyfer Gweinidogion y DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn modd sy'n tanseilio'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau y cafodd deddfwyr Cymru eu hethol i'w diogelu".

**26.** Aiff ymlaen i ddweud:

> *"Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, tra'n cadw gweithgareddau penodol ar gyfer y Senedd, y Canghellor a Thrysorlys Ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru."*

**27.** Mae'r Memorandwm yn esbonio bod "swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliannau sy'n ymwneud â chylch gwaith y banc mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i sicrhau bod datganoli'n cael ei barchu, ond hyd yn hyn nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw newidiadau o'r fath eto". Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i eirioli bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau

cyfatebol i bwerau'r sefydliadau cyfatebol yn y DU. Galwodd ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i alluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethu i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol.

**28.** I gloi, mae'r Memorandwm yn pwysleisio bod nifer o'r cymalau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer "o bryder cyfansoddiadol i Lywodraeth Cymru. Felly, er gwaethaf rhinweddau rhai o'r cymalau, mae safbwynt terfynol Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid argymell cydsyniad yn ddarostyngedig i ganlyniad trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno gwelliannau i'r Bil".

**29.** Mae'r Memorandwm Atodol yn esbonio nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Bil eto i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru.

# 5. Cymalau o ddiddordeb i'r Pwyllgor

**30.** Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi esboniad o'r cymalau sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor, o ystyried ei gylch gwaith, a'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau hynny yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Cymal 2 – amcanion a gweithgareddau

**31.** Mae cymal 2(3) yn darparu mai amcan y Banc yw: helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys drwy gefnogi ymdrechion i gyrraedd y targed ar gyfer 2050 a nodir yn adran 1 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol.

**32.** Mae cymal 2(4) yn darparu mai gweithgareddau'r Banc yw: darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â seilwaith; darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar gyfer prosiectau o'r fath; gweithredu fel canolfan arbenigedd a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill mewn perthynas â phrosiectau o'r fath; ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n atodol neu'n ffafriol i'r gweithgareddau uchod, neu sy'n gysylltiedig fel arall â hwy.

**33.** Roedd cymal 2(5) o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi, yn darparu bod ystyr 'seilwaith' yn cynnwys technolegau a chyfleusterau sy'n ymwneud â: dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth neu wasanaethau eraill (gan gynnwys darparu gwres), rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth; a newid hinsawdd (gan gynnwys tynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer).

**34.** Fel y nodir yn y Memorandwm Atodol, gwnaed gwelliannau yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi i ehangu ystyr 'seilwaith':

- i gynnwys 'strwythurau sy'n sail i'r economi gylchol, ac atebion ar sail natur'; ac
- i'w gwneud yn glir bod effeithlonrwydd ynni, mewn perthynas â thrydan, nwy a darparu gwres, o fewn y diffiniad o seilwaith.

**35.** Mae cymal 2(7) yn darparu y caiff y Trysorlys, drwy reoliadau, ddiwygio amcanion a gweithgareddau'r Banc. Byddai'r rheoliadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan Senedd y DU.

### Cymal 3 – blaenoriaethau a chynlluniau strategol

**36.** Mae cymal 3 yn gosod gofyniad ar y Trysorlys i baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc o fewn chwe mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Gall y Trysorlys ddiwygio neu amnewid y datganiad. Rhaid gosod copi o'r datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) gerbron Senedd y DU.

**37.** Rhaid i'r Banc gyhoeddi cynlluniau strategol sy'n adlewyrchu datganiad y Trysorlys a gweithredu'n unol â hwy, a diweddaru'r cynlluniau hynny pryd bynnag y bydd y Trysorlys yn diwygio neu'n amnewid ei ddatganiad.

## 6. Trafodaeth y Pwyllgor

### Cysondeb â blaenoriaethau strategol Cymru

**38.** Wrth drafod y memoranda, fe wnaeth y Pwyllgor drafod a yw blaenoriaethau ac amcanion strategol y Banc yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru a sut y maent yn gwneud hynny.

**39.** Eglurodd John Flint, Prif Swyddog Gweithredol Banc Seilwaith y DU fod y Banc wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, sydd wedi helpu i alinio ei gynllun strategol â blaenoriaethau ac ysgogwyr polisi Cymru. Ychwanegodd:

> *"When making investment decisions we consider the extent to which each investment opportunity delivers on our Strategic Plan and towards wider UK policy on climate change and economic infrastructure, including that of Wales".*

**40.** Dywedodd John Flint y bydd cynllun strategol y Banc yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd ac felly'n cadw'n gyfoes â pholisi Cymru. Yn ogystal, dywedodd y bydd y Banc yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chwaraewyr eraill y farchnad ar gyflawni'r cynllun.

**41.** Er i'r Gweinidog ddweud bod gan y Banc "y potensial i gefnogi blaenoriaethau seilwaith Llywodraeth Cymru", pwysleisiodd yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru (a'r llywodraethau datganoledig eraill) i ddylanwadu ar y broses o bennu blaenoriaethau a chynlluniau strategol y Banc.

## Amcanion statudol y Banc

### Amcan natur?

**42.** Amcanion statudol y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Ochr yn ochr â Chyllideb Gwanwyn 2021, ymrwymodd Llywodraeth y DU i adolygu'r achos dros ehangu amcanion amgylcheddol Banc Seilwaith y DU i gynnwys meysydd fel gwella cyfalaf naturiol y DU. Wrth adrodd ar ei chanfyddiadau, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad:

> "*…we believe that support for nature-based solutions can be delivered through the Bank's existing policy framework, without the addition of a specific third objective on nature. This will enable the Bank to focus on building its capability to meet its two stretching objectives on tackling climate change and supporting regional and local economic growth*".

**43.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i annog y Banc i ystyried y rôl y gallai ei chwarae mewn datrysiadau seiliedig ar natur a sut y gallai hynny ddatblygu dros amser.

**44.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn y Gweinidog ar amcanion y Banc, gan gynnwys a ddylid eu hymestyn, er enghraifft i gynnwys mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn ôl y Gweinidog, mae'r amcanion "yn ddigon eang i gwmpasu ystod gynhwysfawr o ymyriadau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys bioamrywiaeth, atebion sy'n seiliedig ar natur neu'r economi gylchol". Fodd bynnag, ychwanegodd, "ni fyddwn yn amharod i weld yr amcanion hyn ar wyneb y Bil".

**45.** Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc, er mwyn eu galluogi i gael dweud eu dweud wrth fireinio amcanion y Banc lle bo angen.

## Cydbwyso amcanion

**46.** Mae'r ddogfen fframwaith yn cydnabod y potensial ar gyfer tensiwn rhwng amcanion y Banc i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chefnogi twf economaidd, yn enwedig yn y tymor byr. Mae'n nodi, lle mai diben pennaf buddsoddiad yw cefnogi twf economaidd, bydd y Banc yn sicrhau nad yw'n gwneud niwed sylweddol yn erbyn ei amcan hinsawdd. Wrth wneud sylw ar hyn, dywedodd y Gweinidog, "mae'n amlwg i mi fod yn rhaid i ymarfer y Banc o ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r amod hwn fod yn ganolog i benderfynu a yw prosiect yn cael ei gefnogi neu fel arall".

**47.** Gofynnodd y Pwyllgor i John Flint esbonio sut mae'r Banc yn penderfynu a fyddai buddsoddiad yn gwneud niwed sylweddol. Dywedodd wrthym:

> *"All investments financed by the Bank undergo environmental, social, resilience & governance (ESRG) screening. Our identification of ESRG concerns and "significant harm" is risk-based and seeks to ensure that adequate mitigations are in place. This includes, amongst other things, assessing how projects manage their direct and indirect environmental and social impact, the climate resilience of their projects, risks and the robustness of their ESRG governance structures. UKIB requires ongoing regular reporting on key metrics and annual and environmental reports from our clients to ensure ongoing alignment with our mandate."*

**48.** Ychwangodd John Flint: "the Bank is currently further enhancing our ESRG, including improving our approach to "do no significant harm", so ensuring it is fit for purpose in this fast-progressing area". Dywedodd y bydd manylion am ddull gweithredu y Banc mewn perthynas â sgrinio amgylcheddol, cymdeithasol, cydnerthedd a llywodraethu yn cael eu nodi yn ei adroddiadau blynyddol wrth iddynt esblygu.

**49.** Er ei bod yn bosibl na fyddai penderfyniad buddsoddi penodol yn cyrraedd y trothwy o 'niwed sylweddol', roedd y Pwyllgor yn pryderu y gellid ystyried bod cyfres o benderfyniadau, gyda'i gilydd, yn achosi niwed sylweddol. Felly, gofynnodd y Pwyllgor i John Flint egluro a fydd y Banc yn ystyried effaith gronnus ei benderfyniadau buddsoddi a sut y bydd yn gwneud hynny. Dywedodd John Flint fod y Banc yn cydnabod pwysigrwydd monitro effaith gronnus. Ychwanegodd:

> *"We consider every new investment in relation to assets already financed, including impact and additionality. In accordance with our net zero mandate, the cumulative contribution of the Bank to climate mitigation will be measured over time. The location specific environmental characteristics of*

*investment projects are considered in our assessment of cumulative impact, including in relation to our "do no significant harm" principle."*

## Ystyr seilwaith

**50.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn y Gweinidog ynghylch ystyr 'seilwaith'. Dywedodd wrthym fod yr ystyr yn "ymddangos… yn weddol eang". Unwaith eto, pwysleisiodd yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc, a hynny er mwyn galluogi Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i "ailedrych ar y cyd a chyda pharch llawn at gymwyseddau datblygedig yr amcanion a'r diffiniadau pe baent yn cael eu hystyried, er enghraifft, fel rhai sy'n cyfyngu'n ormodol".

**51.** Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi mathau o brosiectau na ddylai'r Banc eu cefnogi, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag echdynnu, cynhyrchu, cludo a mireinio olew crai, nwy naturiol neu lo thermol gydag eithriadau cyfyngedig iawn. Mae'n darparu rhestr o eithriadau, ond nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Gofynnodd y Pwyllgor i John Flint roi manylion am y meini prawf y mae'r Banc yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylai prosiect fod yn destun eithriad. Eglurodd:

> *"Exemptions will be considered in the context of the energy transition where the benefit of moving a technology, business or sector to a lower carbon emissions intensity is crucial to net zero and we can evidence the relative avoided emissions from the investment. Fossil fuel generation of any kind will only be considered by exception with adequate and proportionate carbon capture storage where emissions will be reduced over the lifetime of the asset. Judgements on exemptions will always be made in collaborative and transparent fashion."*

**52.** Esboniodd John Flint hefyd fod angen i'r Banc geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig gan gyfranddalwyr cyn ymrwymo i unrhyw drafodiad sydd yn newydd, yn ddadleuol neu'n cael ôl-effeithiau, neu y gellid barnu felly. Dywedodd: "Where possible and practical to do so, we will look to consult with the Welsh Government on any potentially contentious issues arising from our activities in Wales".

## Ein barn ni

Rôl i Lywodraeth Cymru a'r Senedd

Os yw Cymru am gyrraedd ei tharged sero net ar gyfer 2050, bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd. Rydym yn

credu y gallai'r Banc chwarae rhan bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiad i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Er ein bod o blaid creu'r Banc mewn egwyddor, mae gennym bryderon difrifol am y Bil, fel y'i drafftiwyd.

Bydd y Banc, a fydd yn gweithredu ar sail y DU gyfan, yn arfer swyddogaethau yng Nghymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Nid yw'r Bil yn ystyried hyn. Nid oes rôl i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc: caiff blaenoriaethau strategol y Banc eu pennu gan Lywodraeth y DU (cymal 3); Llywodraeth y DU a Senedd y DU sydd â'r pŵer i ddiwygio gweithgareddau'r Banc ac ystyr 'seilwaith' (cymal 2); Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Banc ynghylch sut i gyflawni ei amcanion (cymal 4); a mater i Senedd y DU fydd goruchwylio effeithiolrwydd y Banc (cymal 9). Mae hyn yn annerbyniol.

Rydym yn cefnogi galwadau Llywodraeth Cymru ar i Lywodraeth y DU ddiwygio'r Bil i roi rolau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc sy'n cyfateb i rai eu sefydliadau cyfatebol yn y DU. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i rannu manylion am y gwelliannau y mae'n eu ceisio â phwyllgorau'r Senedd.

Buddsoddi mewn natur

O ystyried yr argyfwng natur cynyddol a'r angen i gyflymu camau gweithredu ar frys i fynd i'r afael â hyn, rydym yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi dweud na fydd yn cynnwys amcan natur statudol yn dilyn ei hadolygiad o amcanion amgylcheddol y Banc. Rydym yn credu bod hyn yn colli cyfle.

Er gwaethaf yr uchod, cawsom ein calonogi o glywed gan y Gweinidog fod amcanion y Banc yn ddigon eang i alluogi buddsoddiad mewn datrysiadau seiliedig ar natur a bioamrywiaeth. Rydym yn croesawu'r gwelliant y cytunwyd arno yn Nhŷ'r Arglwyddi i ehangu ystyr 'seilwaith', sy'n rhoi sicrwydd cyfreithiol bod atebion sy'n seiliedig ar natur o fewn cwmpas y Banc. Rydym yn gobeithio y caiff y gwelliant hwn ei gadw wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref:

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn y Bil Caffael a osodwyd gerbron y Senedd ar 26 Hydref.

Rwyf wedi ystyried yr wyth argymhelliad yn yr adroddiad ac yn falch o roi fy ymateb i bob un ohonynt isod.

**Argymhelliad 1.**
Dylid gofyn am gydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer cymalau 114 a 116, a dylid sicrhau bod unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil yn cyd-fynd â hynny.

Nid wy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Nid wy'n cytuno â'r casgliad y byddai cymalau 114 a 116 cyfystyr â darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Fel yr eglurais mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r cymalau hyn yn ddarpariaethau technegol sy'n ymwneud â sut mae'r Bil yn gweithio yn hytrach na darpariaethau yn eu rhinwedd eu hunain ac, yn ymarferol ac yn gyffredinol, nid ydym yn cynnwys cymalau nad ydynt yn weithredol mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Argymhelliad 2.**
Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y pryderon sy'n weddill a ganlyn a godwyd ym mharagraff 119 o'r Memorandwm:

a. y ffordd y mae'r pŵer sy'n ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil wedi ei ddrafftio fel pŵer cyfredol, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae trafodaethau manwl yn mynd rhagddynt ar lefel swyddogol ynghylch darpariaethau tebyg sydd wedi eu cynnwys yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd). Ar ôl sicrhau unrhyw gytundeb, disgwylir y bydd canlyniadau'r trafodaethau hynny'n cael eu hadlewyrchu ar gyfer y pŵer hwn yn y Bil Caffael.

b. y diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru;

Mae fy swyddogion yn cwrdd â swyddogion Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU i ddatrys y mater hwn. Mae'r trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio cael canlyniad llwyddiannus.

c. y ffordd y mae pwerau cychwyn wedi eu drafftio fel pwerau Gweinidog y Goron yn unig;

Ymrwymodd Llywodraeth y DU ar y dechrau i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael pwerau cychwyn yn y Bil. Mae trafodaethau ynglŷn â'r pwerau yn parhau rhwng swyddogion, a disgwylir cael cytundeb ar y ffordd ymlaen yn fuan.

d. y pwerau cydredol sydd wedi eu cynnwys i wneud y ddarpariaeth ganlyniadol ac ati, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau hyn mewn perthynas â meysydd datganoledig.

Mae fy swyddogion wedi gofyn i'r pŵer gael ei ddiwygio i bwerau cydredol plws ac mae'r trafodaethau'n parhau.

Ynglŷn â'r holl faterion hyn sy'n weddill, nid yw'r drws wedi cau ac mae ymgysylltu'n parhau â Llywodraeth y DU, a hynny ar lefel Weinidogol a swyddogol.

**Argymhelliad 3.** Am resymau tryloywder, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ei llythyrau ar 18 Mai a 23 Mai 2022 at y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, a'r ymatebion a gafwyd (os o gwbl).

Mae'r llythyrau wedi'u hamgáu yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog nodi'r pwynt yn ystod hynt y Bil pan fyddai'n ystyried defnyddio'r mecanweithiau cysylltiadau rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill yn y Bil.

Rydym wedi cynnal perthynas weithio dda â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r Bil Caffael a, hyd yn hyn, rydym wedi gallu cytuno ar ddatrysiadau heb orfod ystyried unrhyw fecanweithiau datrys anghydfod megis y cytundeb rhynglywodraethol. Gan fod trafodaethau â Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt, ni fyddai'n briodol, ar hyn o bryd, ddefnyddio'r mecanweithiau cysylltiadau rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill yn y Bil.

Mae hyn yn unol â chytundeb yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol sy'n nodi: *Nid ystyrir uwchgyfeirio anghytundeb rhwng llywodraethau i anghydfod ond ar ôl rhoi ystyriaeth briodol a llawn ar lefel portffolio (gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - F:ISC), a hynny pan na ellir datrys anghytundeb ar lefel portffolio ac mae goblygiadau sylweddol ar y berthynas rhwng dwy neu ragor o lywodraethau.*

O ystyried y berthynas â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd, a'r canllawiau ar ddefnyddio mecanweithiau cysylltiadau rhynglywodraethol, nid yw'n bosibl (nac yn briodol) darogan pryd y byddai perthnasau'n methu i'r pwynt lle dylid ystyried defnyddio'r mecanweithiau hyn.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog nodi unrhyw senarios lle y byddai'n ystyried defnyddio cytundeb rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill yn y Bil.

Ni ragwelir y bydd angen defnyddio'r mecanwaith cysylltiadau rhynglywodraethol i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill. Fodd bynnag, pe bai perthnasau'n methu yn y dyfodol, byddem yn bwriadu uwchgyfeirio drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y lle cyntaf.

Byddwn, wrth gwrs, yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus ac rydym yn cydnabod bod y mecanwaith datrys anghydfodau ar gael – os bydd ei angen arnom – ar gyfer datrys unrhyw faterion na ellir mo'u datrys drwy ymgysylltu ar lefel portffolio.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwyntiau ar y gweithdrefnau sy'n gymwys i holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â phryderon a godwyd gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio mewn perthynas â'r Bil.

O ystyried y cysylltiadau rhwng Argymhellion 6 a 7, mae'r ymateb hwn yn cwmpasu'r ddau argymhelliad.

Mae fy swyddogion wedi trafod â'u swyddogion cyfatebol yn Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU y pryderon a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio. Mae fy swyddogion wedi cyfrannu at yr ymateb lle ceir ystyriaethau polisi sy'n ymwneud â Chymru.

Roeddwn yn fodlon ar y gweithdrefnau sy'n gymwys i holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, bydd rhai gweithdrefnau'n newid o ganlyniad i nifer o bwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio. Rydym wedi cael ar ddeall y caiff yr ymateb i'r adroddiad ei gyhoeddi yn fuan.

Rwy'n fodlon o hyd ar y gweithdrefnau sy'n gymwys i holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil yn dilyn y diwygiadau y cytunwyd arnynt ar lefel swyddogol.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog roi ymateb i'r holl argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cafodd ei osod, neu cyn i unrhyw femoranda yn y dyfodol gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil, pa un bynnag a ddaw yn gyntaf.

Rwy'n derbyn hyn.

Hyderaf fod yr ymatebion a roddwyd yn ddefnyddiol. Mae croeso mawr ichi gysylltu â mi os oes angen rhywbeth arall arnoch.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Rt. Hon. Jacob Rees-Mogg M.P.
Minister for Brexit Opportunities and Government Efficiency
Cabinet Office 70 Whitehall London
SW1A 2AS

Rebecca Evans AS/MS
Minister for Finance and Local Government
Welsh Government
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

By email to:
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Dear Minister,

Thank you for your letters dated 18 May and 23 May in response to the UK Government's request that the Welsh Government commence the legislative consent process for the Procurement Bill in the Senedd Cymru.

The Procurement Bill provides HM Government and the Devolved Administrations with an excellent opportunity to overhaul the public procurement regime and drive flexibility in our procurement processes. I have been pleased to see our officials working together on this important legislation.


I note from your correspondence, and the subsequent Legislative Consent Motion which was lodged with the Senedd on 9 June, that you have some concerns about the Bill as drafted. Regarding your concern about the Definition of Welsh Contracting Authorities within the Bill, it has always been the intention of HM Government to find a workable, practical solution which will be easy for affected Contracting Authorities to implement and follow.

Additionally, I have noted your concern regarding powers in respect of implementing future trade agreements. I understand the position and recognise that there are some cross-cutting Trade implications which need to be taken into account in this regard.

Since May our officials have continued to work closely together on identifying potential technical and legal solutions and I was pleased to see that some of these issues, for example, with regard to the disapplication power for healthcare services and the removal of the Wales Procurement Policy Statement from any civil proceedings remedies regime, have been resolved. I have asked my officials to continue working collaboratively with your officials throughout the summer and September in order to resolve the remaining issues whilst the Bill is going through the parliamentary process.

I want to thank you for your continued engagement and support of the Procurement Bill and assure you that I will respond in more depth in due course.

Yours sincerely,



**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE/700/2022

Rt. Hon. Jacob Rees-Mogg MP
Minister for Brexit Opportunities and Government Efficiency
Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS

By Email: psjacobreesmogg@cabinetoffice.gov.uk
ministerial.correspondence@cabinetoffice.gov.uk

cc The Rt Hon Penny Mordaunt MP, Minister of State for Trade Policy
Email: Mordaunt.Correspondence@trade.gov.uk

cc The Rt Hon Simon Hart MP, the Secretary of State for Wales
Email: secretary.state@ukgovwales.gov.uk

23 May 2022

Dear Jacob,

Thank you for your letter regarding the introduction of the Procurement Bill (the Bill) to Parliament on 11 May 2022.

I agree in principle that the Bill engages the legislative consent motion process in legislating for procurements undertaken by devolved Welsh authorities and certain private utilities as defined in the Bill. I am therefore content, in principle, to begin the legislative consent process in the Senedd Cymru.

I have written to you separately however regarding some issues with the definition of devolved Welsh authorities within the Bill and I look forward to receiving your response.

Due to the size of the Bill, my officials are continuing with the devolution analysis for the legislative consent memorandum. My officials are also working with yours to agree a list of government amendments required.

In relation to the section in your letter entitled “Power to implement procurement aspects of trade agreements”, this is an area of significant concern with the Bill. Thank you for the assurance provided in your letter. However, the Welsh Government has been clear that the use of concurrent powers undermines the devolution settlement and that we cannot recommend consent to the Senedd where concurrent powers are proposed.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

When the Welsh Ministers were considering their position regarding the Bill, the following assurances were made by Minister Lopez, the then Parliamentary Secretary for the Cabinet Office, in her letter of 16 July 2021:

- that the legislation will not fetter either the legislative competence of the Senedd or the executive competence of Welsh Ministers, e.g., no concurrent powers so as to engage Schedule 7B Government of Wales Act 2006, full autonomy in taking forward any secondary legislation for Welsh contracting authorities (i.e., those bodies with wholly or mainly devolved functions)
- that Welsh Ministers will be granted equivalent powers to UK Ministers in in relation to those contracting authorities carrying out wholly or mainly devolved activities (Welsh contracting authorities).

In light of the assurances provided by Minister Lopez above, I ask that you reconsider your position and that the power to implement procurement aspects of trade agreements in the Bill are amended to give Welsh Ministers an equivalent power. This is a matter of grave importance to the Welsh Ministers, I have therefore copied this letter to the Minister of State for Trade Policy and the Secretary of State for Wales.

I look forward to hearing from you soon.

Yours sincerely,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/699/2022

Jacob Rees-Mogg MP
Minister for Brexit Opportunities and Government Efficiency
Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS

By Email: psjacobreesmogg@cabinetoffice.gov.uk
ministerial.correspondence@cabinetoffice.gov.uk

18 May 2022

Dear Jacob,

**Procurement Bill: Cross Border Procurement**

Thank you for your letter of 11 May. I confirm that I will be providing a formal response to your letter in relation to those matters outlined under the heading of "Next steps."

Meanwhile, I would like to draw your attention to a particular area of concern to Welsh Ministers in relation to cross border procurement.

An assurance was made by Minister Lopez, the then Parliamentary Secretary for the Cabinet Office, in her letter of 16 July 2021, that we agree the list of contracting authorities to which the "Welsh" elements of the Bill will apply (i.e., those bodies with wholly or mainly devolved functions) and to which the UK Government elements will not.

Since then, discussions have been ongoing between Welsh Government and UK Government Officials on the definition for Welsh Contracting Authorities (WCAs) in the Bill - with the draft wording being amended a number of times.

The Bill as introduced contains provision which restricts the exercise of Welsh Ministers' powers under the Bill to the purpose of regulating (a) contracting authorities that are devolved Welsh authorities (within the meaning given in section 157A of the Government of Wales Act 2006) (b) contracting authorities that are not devolved Welsh authorities but are to be treated as devolved Welsh authorities or (c) the award of contracts under a devolved Welsh procurement arrangement, or the management of such contracts (see clause 99(1)). Any reference in the Bill to a "devolved Welsh authority" is to include a reference to an authority that is to be treated as a devolved Welsh authority (see clause 99(4)).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We are mostly content with the definition as it stands for most Welsh Contracting Authorities. This goes some way towards addressing our concern that the “Welsh” rules (as a consequence of the exercise of the Welsh Ministers powers and the separate provision for Wales) should apply to a wider range of contracting authorities than would fall within the Government of Wales Act definition of “devolved Welsh authority”. Our main concern is about the implications for contracting authorities, other than utilities, which fall within category (b) (i.e. contracting authorities that are not devolved Welsh authorities but are to be treated as devolved Welsh authorities) when they carry out a cross border procurement i.e. a single procurement which relates to both Wales and England.

Our interpretation of clause 99(3) is that it would mean that in these circumstances, the authority will be bound by the ‘Welsh’ rules for procurements which are wholly in respect of Wales but not for any other procurements, including cross border procurements. Ultimately this means that for any cross border procurements which are for the supply of goods, services or works of which, say, 90% is for use in Wales and 10% is for use in England, then the ‘English’ elements of the rules would apply. Examples of what this might mean currently for Contracting Authorities falling within the wider definition of “devolved Welsh authority” (“category (b) authorities”) when carrying out cross-border procurements are currently as follows:

- Category (b) authorities carrying out a cross border procurement in Wales and England would have to have regard to the NPPS and not the WPPS, as the duty to have regard to the WPPS only applies to devolved Welsh authorities (clause 13). An example of this is registered social landlords (RSLs) procuring work in relation to their housing stock which they have in both Wales and England in one contract. The English NPPS would apply, even though the main element of their housing stock is based in Wales.
- Prohibition of a separate pre-qualification stage for procurements below GPA thresholds (clause 78) applies to contracting authorities other than devolved Welsh authorities. Category (b) authorities when carrying out a cross border procurement would be subject to this prohibition and would not be able to utilise the flexibility of using a pre-qualification stage.
- For any contracts valued above £2m let in Wales, category (b) authorities carrying out a cross border procurement will need to comply with the requirement to publish the contracts (clause 51(3)). But this requirement does not apply to devolved Welsh authorities so will not be a requirement for category (a) authorities when carrying out any procurement (including a cross border procurement) nor is it a requirement for a category (b) authority when carrying out a procurement only in relation to Wales.
- Category (b) authorities carrying out cross border procurement would also need to comply with the requirement to update published contracts valued over £2m when they have been modified, or to publish contracts if a modification has taken the value over £2m (clause 70(6)). This is not a requirement for category (a) authorities when carrying out any procurement (including a cross border procurement) nor is it a requirement for a category (b) authority when carrying out a procurement only in relation to Wales.

Both UKG Ministers and Welsh Ministers have regulation making powers within this Bill, and the Bill makes separate provision for Wales in some areas. As both Governments develop policies within their competence in the future there may be further divergence and the impact on category (b) authorities carrying out cross border procurements could therefore be much greater moving forward and could therefore have a real impact on the implementation of Welsh policies for the authorities affected. This would not be acceptable for Welsh Ministers.

The drafting of the definition of “devolved Welsh authority” in the Bill means that when category (b) authorities are carrying out a cross border procurement the English regulations take precedence, which is not what Welsh Ministers require for bodies undertaking wholly or mainly devolved functions.

The Explanatory Note (587) to this section in the Bill refers to this point, It explains that subsection (3) defines another category of contracting authority to be treated as a devolved Welsh authority and states:

”These are contracting authorities that operate to some extent outside Wales, but whose functions are both exercisable wholly or mainly in relation to Wales and are not wholly or mainly reserved. These authorities are only to be treated as devolved Welsh authorities when awarding or managing a contract in relation only to their functions in Wales. In respect of a contract that relates to more than just functions in Wales, the authority would not be a devolved Welsh authority.”

It is this last section that is not acceptable to Welsh Ministers if the procurement being undertaken relates mainly to Wales then we believe that they should be treated as a devolved Welsh authority for the purposes of this Bill.

You may be aware that my officials have already requested an approach, which would require contracts for services/goods/works for use in both Wales and England to be procured in accordance with the provisions applicable to the main geographical location and function of the contract in question. This is a similar approach to mixed procurements in the current PCR.  However, we understand that you are not minded to accept this approach.
It is important to ensure that we reach agreement on the scope of the Welsh Ministers powers to regulate in relation to Welsh Contracting Authorities (WCAs) and the application of separate provisions in relation to WCAs.

Given the above and the assurance provided by Minister Lopez, I would ask you to consider an amendment to the Bill so that the drafting of the definition of category (b) authorities would reflect where procurement undertaken by an authority is wholly or mainly in relation to Wales that they are treated as a devolved Welsh authority.

Yours sincerely,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Datganiad ynghylch cynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **14 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ym mis Gorffennaf, gwnes ddarparu adroddiad cynnydd ar waith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan ymrwymo i ddarparu adroddiad pellach yn yr hydref.

Mae gwybodaeth am waith y Comisiwn ar gael yn yr adroddiad cynnydd diweddaraf a ddarparwyd gan y Cydgadeiryddion.

Cyfarfu'r Prif Weinidog, arweinydd Plaid Cymru a minnau â'r Cydgadeiryddion yn ddiweddar i drafod eu gwaith. Rhoesant wybod eu bod ar y trywydd iawn i ddarparu eu hadroddiad interim erbyn diwedd eleni. Byddaf eto yn rhoi diweddariad pellach i'r Aelodau ar ôl i'r adroddiad hwnnw ddod i law.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/2062/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â Rheoliadau drafft y Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022.

Yn dilyn adroddiad defnyddiol y Pwyllgor ar y Rheoliadau, tynnodd y Llywodraeth yn ôl ac ymrwymo i ail-osod cyfres ddiwygiedig o Reoliadau, a oedd yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor. Mae'r holl bwyntiau adrodd a oedd yn gofyn am ymateb wedi cael sylw a gosodwyd y Rheoliadau diwygiedig ar 15 Tachwedd.

Er mwyn gallu dechrau y cynllun cyn diwedd tymor y Senedd hon, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor yn ystyried hwyluso'u gwaith craffu ar y Rheoliadau diwygiedig er mwyn galluogi'r drafodaeth Lawn i ddigwydd ar 29 Tachwedd. Gallai newidiadau deddfwriaethol sydd i fod i ddod i rym yn 2023 ofyn am ddiwygiadau pellach i'r Rheoliadau ac achosi oedi pellach os na allwn ddechrau y cynllun cyn diwedd 2022.

Byddai cymorth y Pwyllgor yn y mater hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales

10 Tachwedd 2022

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr ar 31 Hydref am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ategol ar gyfer Bil Tai Cymdeithasol (Rheoliad) y DU ("y Bil").

Yn ôl data diweddaraf Rheoleiddydd Tai Cymdeithasol Lloegr, mae 18 o Ddarparwyr Cofrestredig yn berchen ar ac yn rheoli tua 530 o gartrefi/unedau yng Nghymru y bydd y newidiadau a gynigir yn y Bil yn effeithio arnynt. Cartrefi anghenion arbennig yw'r rhan fwyaf ohonynt, gyda rhai tai anghenion cyffredinol a rhanberchenogaeth. Yn ôl y Rheoleiddydd Tai Cymdeithasol, nid oes ganddo wybodaeth ynghylch ble mae'r cartrefi/unedau hyn.

Gwybodaeth ychwanegol allai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor yw bod Datganiadau Ariannol 2021 Cymdeithasau Tai Cymru yn cadarnhau bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Cymru'n berchen ar ac yn rheoli 169,337 o gartrefi yng Nghymru. Hefyd, mae dau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig o Gymru yn berchen/rheoli tua 116 o leoedd gwely/cartrefi (ar Ragfyr 2021) yn Lloegr. Fel yr uchod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gartrefi arbenigol fel tai â chymorth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

31 Hydref 2022

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Byddwch yn ymwybodol bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) wedi'u cyfeirio at ein Pwyllgor i graffu arnynt; gwnaethom eu hystyried yn ein cyfarfod ar 27 Hydref.

Rydym yn nodi bod y Memorandwm Atodol yn datgan:

"cymharol ychydig o eiddo sydd yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig o Loegr a/neu a reolir ganddynt, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau mewn amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil."

Byddai'n gymorth i ni wrth ystyried y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol pe gallech roi rhagor o fanylion am nifer yr eiddo yng Nghymru sy'n perthyn i'r categori hwn ac, os yn bosibl, eu lleoliad. Byddem yn ddiolchgar am ymateb erbyn 10 Tachwedd i'n galluogi i roi ystyriaeth bellach i hyn yn ein cyfarfod yr wythnos ganlynol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon